

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(PENTREFOELAS, CONWY) A CHEFNFFORDD
YR A470 (LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn caniatáu i gyfranogwyr yn nigwyddiad Cam 4 y Tour of Britain deithio/croesi yn ddiogel o dan amodau'r ras ar gefnffyrdd yr A5 a'r A470 ym Mhentrefoelas a Llanrwst yn Sir Conwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio cerbydau'r digwyddiad, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a cherbydau'r gwasanaethau brys), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Ni fydd llwybrau eraill ar gael yn ystod y cyfnod cau a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn.

Heddlu Gogledd Cymru a Swyddogion y digwyddiad fydd yn rheoli cau'r ffyrdd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a bennir yn Atodlen 1, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 13:30 o'r gloch a 15:00 o'r gloch ar 8 Medi 2021.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a bennir yn Atodlen 2, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 14:30 o'r gloch a 15:00 o'r gloch ar 8 Medi 2021.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau'n weithredol o'r amseroedd a bennir uchod. Er hynny, bydd y Gorchymyn yn cychwyn o 00:00 o'r gloch ac yn parhau mewn grym hyd 23:59 o'r gloch ar 8 Medi 2021 rhag ofn y bydd y ras yn dechrau'r gynt neu fod unrhyw oedi.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

G N JONES
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (PENTREFOELAS,
CONWY) AND THE A470 TRUNK ROAD
(LLANRWST, CONWY) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS
AND PEDESTRIANS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to allow participants in the Tour of Britain Stage 4 event to safely travel/cross under race conditions on the A5 and A470 trunk roads at Pentrefoelas and Llanrwst in the County of Conwy.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, (other than event vehicles, public service vehicles and emergency services vehicles) cyclists and pedestrians, from proceeding on the lengths of the trunk road as specified in Schedules 1 and 2 to this Notice. No alternative routes will be in place during the closure periods specified in Schedules 1 and 2 to this Notice.

Closures to be controlled by North Wales Police and event Marshalls.

The prohibition specified in Schedule 1, which will be signed accordingly, is expected to operate between 13:30 hours and 15:00 hours on 8 September 2021.

The prohibition specified in Schedule 2, which will be signed accordingly, is expected to operate between 14:30 hours and 15:00 hours on 8 September 2021.

It is expected that the prohibitions, will operate from the times specified above, although the Order will commence from 00:00 hours and remain in force until 23:59 hours on 8 September 2021 as a contingency should the race be started earlier or delayed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

G N JONES
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Y darn o gefnffordd yr A5 yn Sir Conwy sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4407 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B5113, ym Mhentrefoelas.

ATODLEN 2

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Sir Conwy sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B5427 (Ffordd Cae'r Melwr) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B5106 (y Bont Fawr) yn Llanrwst.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

The length of the A5 trunk road in the County of Conwy that extends from the centre-point of its junction with the B4407 to the centre-point of its junction with the B5113, at Pentrefoelas.

SCHEDULE 2

The length of the A470 trunk road in the County of Conwy that extends from the centre-point of its junction with the B5427 (Nebo Road) to the centre-point of its junction with the B5106 (Pont Fawr) at Llanrwst.